# Teithio llesol rhwng Caerdydd a Chasnewydd (cerdded a beicio) a llwybrau bysiau

## (A48/NCN88)

Gwybodaeth ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd

1 Chwefror i 11 Mawrth 2022



CARDIFF CAERDYDD

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD

TRAFNIDIAETH CYMRU TRANSPORT FOR WALES

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Cyflwyniad


Mae Uned Cyflenwi Burns wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru (TrC) i weithredu argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru. Ar y cyd â Chyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Caerdydd, mae'n bwrw ymlaen ag argymhelliad i ddarparu seilwaith cerdded, beicio a bysiau newydd ar yr A48 a Llwybr Beicio Cenedlaethol 88 (NCN88) rhwng Caerdydd a Chasnewydd.

Mae teithio rhwng Caerdydd a Chasnewydd yn goridor trafnidiaeth allweddol yn Ne-ddwyrain Cymru, ond mae'r opsiynau ar gyfer teithio cynaliadwy yn gyfyngedig. Ar hyn o bryd, mae'r cyfleusterau ar gyfer bysiau a cherddwyr ar hyd yr A48 yn wael ac nid oes darpariaeth o gwbl ar gyfer beicwyr, er ei bod yn cysylltu â chanolfannau cyflogaeth pwysig. Mae'r NCN88 yn llawer tawelach, ond mae rhannau ohono'n ddibalmant, yn anuniongyrchol neu'r terfyn cyflymder cenedlaethol yn unig sydd mewn grym.

Gyda'r seilwaith cywir, mae cyfle i deithio ar fws neu ar gefn beic yn hytrach na char rhwng gogledd-ddwyrain Caerdydd a gorllewin Casnewydd. Byddai hyn yn gwella mynediad i safleoedd cyflogaeth pwysig a hefyd yn cyfrannu at system drafnidiaeth fwy cynaliadwy.

| Gweledigaeth y prosiect | Darparu dewisiadau deniadol yn lle ceir i bobl sy'n teithio rhwng Caerdydd a Chasnewydd drwy seilwaith bysiau, beicio a cherddded rhagorol |
|---|---|

## Ardal yr astudiaeth



Bydd buddsoddi mewn seilwaith cerdded, beicio a bysiau newydd rhwng Caerdydd a Chasnewydd yn ei gwneud yn haws i bobl deithio i'r man lle mae angen iddynt fynd ar gyfer gwaith a hamdden ar hyd a lled De-ddwyrain Cymru, mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.

Ar gyfer pob llwybr, mae tri opsiwn wedi cael eu datblygu.

Mae prif nodweddion yr opsiynau ar gyfer yr A48 yn cynnwys:

- Llwybr beiciau dwyffordd rhwng Caerdydd a Chasnewydd (gyda chysylltiadau wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol i Gaerdydd ac i Gasnewydd)
- Newidiadau i gyffyrdd er mwyn rhoi blaenoriaeth i fysiau, cerddwyr a beicwyr
- Llai o lonydd traffig a newidiadau i derfynau cyflymder drwy Gas-bach

Mae prif nodweddion yr opsiynau ar gyfer yr NCN88 yn cynnwys:

- Darnau newydd o seilwaith beicio a cherdded sy'n fwy syth
- Mwy o fesurau gwahanu i ffwrdd o draffig ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogion
- Gwelliannau i ddiogelwch ar y ffordd ym Maerun
- Triniaethau Lôn Dawel a newidiadau i derfynau cyflymder yn y darnau traffig cymysg sy'n weddill
- Mesurau lliniaru amgylcheddol i warchod a gwella cynefinoedd bywyd gwyllt ar Wastadeddau Gwent lle mae'r llwybr yn mynd drwyddo

Er mwyn i chi allu rhoi eich barn ar yr opsiynau hyn, mae'r tudalennau canlynol yn dangos pob un ohonynt yn fanylach. Mae rhestr termau a rhagor o fanylion am sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon.

## Crynodeb o opsiynau: A48


| | Beicwyr | Cerddwyr | Defnyddwyr bysiau | Cyffyrdd |
|---|---|---|---|---|
| Opsiwn 1 | Llwybr beiciau dwyffordd ar wahân | Darpariaeth croesi ar lefel y ffordd yng Nghas-bach. Gwelliannau cyfyngedig. | Rhai mesurau blaenoriaethu bysiau ychwanegol cyfyngedig | Newidiadau i gyffordd Heol Maerun yng Nghas-bach. Cadw'r cylchfannau. |
| Opsiwn 2 | Llwybr beiciau dwyffordd ar wahân, gyda chroesfannau newydd i feiciau ar gyffyrdd | Fel uchod, ynghyd â throedffyrdd lletach a chyfleusterau croesi gwell | Mesurau blaenoriaethu bysiau ar rai darnau sy'n arwain at gyffyrdd | Addasu cylchfannau i greu seilwaith â blaenoriaeth i ddefnyddwyr bysiau a beicwyr |
| Opsiwn 3 | Llwybr beiciau dwyffordd ar wahân gyda goleuadau traffig penodol i feicwyr | Fel uchod, ynghyd â chroesfannau a reolir gan oleuadau traffig ar bob cyffordd er mwyn sicrhau diogelwch | Mesurau blaenoriaethu bysiau ar bob darn sy'n arwain at gyffyrdd | Cylchfannau'n cael eu trosi'n groesffordd a reolir gan oleuadau traffig |

## Crynodeb o opsiynau: NCN88

| | Profiad beicwyr a cherddwyr | Uniongyrchedd y llwybr |
|---|---|---|
| Opsiwn 1 | Gwelliannau i ddiogelwch a chyfforddusrwydd drwy derfynau cyflymder is, ail-wynebu a mesurau gostegu traffig | Adlinio llwybrau rhywfaint ar gyfer beicwyr / cerddwyr fel eu bod yn fwy uniongyrchol |
| Opsiwn 2 | Mwy o fesurau gwahanu beicwyr a cherddwyr i ffwrdd o draffig cerbydau nag Opsiwn 1 | Adlinio llwybrau yn gymedrol ar gyfer beicwyr / cerddwyr fel eu bod yn fwy uniongyrchol |
| Opsiwn 3 | Gwahanu beicwyr a cherddwyr yn llwyr oddi wrth draffig cerbydau ar hyd y llwybr cyfan | Adlinio llwybrau yn sylweddol ar gyfer beicwyr / cerddwyr fel eu bod yn fwy uniongyrchol |

# A48 opsiwn 1

Mae'r opsiwn hwn yn cyflwyno seilwaith newydd penodol at ddibenion cerdded, beicio a bysiau, lle mae'n ymarferol gwneud hynny, gan gadw capasiti presennol y ffordd ar gyfer traffig cerbydau gymaint â phosibl




Nodweddion Allweddol:

- Llwybr beiciau dwyffordd ar hyd ochr ddeheuol yr A48, ynghyd â blaenoriaeth i fysiau ar gyffyrdd
- I'r gorllewin o Blacksmiths Way, mae'r ffordd yn cael ei newid i un lôn ym mhob cyfeiriad, gyda llwybr beiciau dwyffordd wrth ei hymyl
- Cedwir y mathau presennol o gyffyrdd

Manteision:

- Mae'n cadw capasiti'r ffordd ar gyfer traffig cerbydau o amgylch y parciau busnes, gyda dwy lôn i'r ddau gyfeiriad i'r dwyrain o Blacksmiths Way
- Mae newidiadau cyfyngedig i gyffyrdd yn lleihau'r gost a'r tarfu yn ystod y gwaith adeiladu

Anfanteision:

- Mae'n culhau ychydig ar lonydd traffig mewn lleoliadau cyfyngedig er mwyn cadw nifer y lonydd
- Angen caffael tir
- Blaenoriaeth gyfyngedig i fysiau


## Cynllun presennol

(Blacksmiths Way i'r Lôn Geltaidd)




## Cynllun arfaethedig

(Blacksmiths Way i'r Lôn Geltaidd)



# A48 opsiwn 2

Mae'r opsiwn hwn yn rhoi blaenoriaeth i'r seilwaith newydd penodol at ddibenion cerdded, beicio a bysiau. O'i gymharu ag Opsiwn 1, mae mwy o ofod presennol y ffordd yn cael ei aildrefnu at ddibenion cerdded, beicio a bysiau. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn cynnwys newidiadau mwy sylweddol i'r cyffyrdd presennol.




Nodweddion Allweddol:

- Llwybr beiciau dwyffordd parhaus ar hyd yr ochr ddeheuol
- Llai o lonydd traffig wrth ddynesu at y rhan fwyaf o gyffyrdd i wneud lle ar gyfer y seilwaith newydd i fysiau a beiciau
- Cylchfannau wedi'u haddasu ar y Lôn Geltaidd a Blacksmiths Way, gyda chyfleusterau croesi gwell i feicwyr a cherddwyr

Manteision:

- Angen caffael llai o dir nag Opsiwn 1, gan fod nifer y lonydd traffig yn cael ei leihau a'r cylchfannau'n cael eu haddasu i greu lle ar gyfer seilwaith newydd i fysiau a beiciau o fewn y briffordd bresennol
- Llwybr beiciau dwyffordd parhaus ar ei hyd

Anfanteision:

- Mwy o ostyngiad yn nifer y lonydd traffig nag Opsiwn 1, a allai arwain at fwy o oedi i draffig cerbydau
- Tarfu mwy yn ystod y gwaith adeiladu yn sgil gwaith addasu'r cylchfannau presennol

## Cynllun presennol

(Blacksmiths Way i'r Lôn Geltaidd)




## Cynllun arfaethedig

(Blacksmiths Way i'r Lôn Geltaidd)



# A48 opsiwn 3

Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys addasiadau helaeth i ffordd yr A48 rhwng y cyffyrdd ac ar y cyffyrdd, gan gynnwys newid rhai o'r cyffyrdd presennol yn llwyr er mwyn sicrhau y rhoddir y flaenoriaeth uchaf i fysiau, cerddwyr a beicwyr.




## Nodweddion allweddol:

- Llwybr beiciau dwyffordd parhaus ar hyd yr ochr ogleddol
- Ail-ddylunio / newid y cyffyrdd presennol yn sylweddol er mwyn sicrhau y rhoddir y lefel uchaf o flaenoriaeth i feiciau a bysiau
- Blaenoriaeth i fysiau wrth ddynesu at bob cyffordd. Byddai'r cylchfannau presennol ar y Lôn Geltaidd a Blacksmiths Way yn cael eu trosi'n groesffordd a reolir gan oleuadau traffig
- Llai o lonydd traffig i ddarparu seilwaith ar gyfer bysiau a beiciau

## Manteision:

- Blaenoriaeth uchaf i ddefnyddwyr bysiau a beicwyr
- Croesfannau a reolir gan oleuadau traffig ar gyfer cerddwyr a beicwyr ar bob cyffordd er mwyn sicrhau diogelwch

## Anfanteision:

- Y gost uchaf
- Tarfu fwyaf yn ystod y gwaith adeiladu
- Angen caffael tir


### Cynllun presennol

(Blacksmiths Way i'r Lôn Geltaidd)




### Cynllun arfaethedig

(Blacksmiths Way i'r Lôn Geltaidd)



# NCN88 opsiwn 1

Mae’r opsiwn hwn yn golygu uwchraddio aliniad presennol y NCN88, cyn belled ag y bo’n ymarferol gwneud hynny o ystyried y cyfyngiadau ffisegol ac amgylcheddol.




Nodweddion Allweddol:

- Cymysgedd o driniaethau ar gyfer beicwyr, gyda chyfuniad o Lôn Dawel, Stryd Feiciau a llwybrau cyd-ddefnyddio yn cael eu defnyddio mewn gwahanol rannau (gweler yr Eirfa am fanylion)
- Llwybr cyd-ddefnyddio wedi’i ledu drwy Dyffryn
- Aliniad byr newydd sy'n fwy syth rhwng Morgraig Avenue ac Oystermouth Way
- Arwyneb arffin ar ddarn o Lôn Werdd sydd heb ei balmantu
- Triniaeth Lôn Dawel ar Tŷ Mawr Lane a Heol Llaneirwg
- Triniaeth Stryd Feiciau drwy bentref Maerun, gyda beicwyr dwyrain-gorllewin yn cael blaenoriaeth dros yrwyr gogledd-de
- Llwybr beiciau ar wahân o amgylch Parc Busnes Llaneirwg

Manteision:


- Gwelliannau i ddiogelwch a chyfforddusrwydd beicwyr a cherddwyr drwy derfynau cyflymder is, ail-wynebu a mesurau gostegu traffig
- Angen caffael dim ond ychydig iawn o dir
- Effeithiau cyfyngedig ar gynefinoedd bywyd gwyllt a warchodir ar Wastadeddau Gwent
- Y gost isaf

Anfanteision:

- Trefniadau gwahanu cyfyngedig rhwng beicwyr, cerddwyr a thraffig cerbydau
- Mae’r llwybr drwy Faerun yn dal i fod fymryn yn anuniongyrchol i feicwyr

# NCN88 opsiwn 2

Mae’r opsiwn hwn yn cynnig uwchraddiad o ansawdd uchel i aliniad NCN88, gyda thraffig trwodd yn cael ei gyfyngu a darnau o alinio newydd er mwyn osgoi llwybrau anuniongyrchol drwy stadau tai.




Nodweddion allweddol:

- Llwybr beicio a cherdded ar wahân drwy Dyffryn
- Darn hirach o aliniad newydd syth ar hyd Rhewyn Percoed yn Dyffryn
- Llwybr cyd-ddefnyddio newydd ar ochr ogleddol Rhewyn Percoed, rhwng is-orsaf y National Grid a Tŷ Mawr Lane
- Triniaeth Lôn Dawel ar Tŷ Mawr Lane a Heol Llaneirwg, gyda mesurau gostegu traffig a gostwng y terfyn cyflymder i 30mya
- Llwybr beicio a cherdded newydd ar wahân i’r de-orllewin o Faerun
- Llwybr beiciau ar wahân drwy Barc Busnes Llaneirwg

Manteision:


- Mwy o fesurau gwahanu beicwyr a cherddwyr i ffwrdd o draffig cerbydau
- Llwybrau beiciau a throedffyrdd newydd sy’n fwy clir a syth o amgylch Maerun a thrwy Dyffryn
- Dim effaith ar strydoedd lleol ym Maerun, gyda’r ddarpariaeth parcio bresennol yn aros yr un fath

Anfanteision:

- Trefniadau gwahanu cyfyngedig rhwng beicwyr a cherddwyr
- Effeithiau ar gynefinoedd bywyd gwyllt ar Wastadeddau Gwent y mae angen eu hastudio ymhellach ac sy’n debygol o fod angen mesurau lliniaru
- Mae angen caffael tir, a bydd hynny'n cael effaith ar nifer fawr o diroedd ffermio ac eiddo masnachol

# NCN88 opsiwn 3

Mae’r opsiwn hwn yn gwahanu beicwyr, cerddwyr a thraffig yn llwyr ar hyd llwybr NCN88 i gyd, gyda darnau o aliniad newydd.




Nodweddion allweddol:

- Llwybr beicio a cherdded ar wahân drwy Dyffryn
- Aliniad syth a newydd ar hyd Rhewyn Percoed drwy Dyffryn
- Llwybr beiciau a cherdded newydd ar wahân ar ochr ogleddol Rhewyn Percoed (gyferbyn â Tŷ Mawr Lane)
- Blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr drwy Faerun, gyda lle parcio ar y stryd wedi’i gyfyngu i fannau penodol
- Llwybr beicio a cherdded syth a newydd ar wahân i’r gorllewin o Faerun, gan osgoi Heol Llaneirwg
- Llwybr beiciau ar wahân drwy Barc Busnes Llaneirwg

Manteision:

- Trefniadau gwahanu llawn rhwng beicwyr, cerddwyr a thraffig cerbydau
- Aliniadau syth a newydd i feicwyr, gan leihau amseroedd teithio rhwng Caerdydd a Chasnewydd
- Gwelliannau sylweddol i ddiogelwch ar y ffordd ym Maerun, gyda cherddwyr a beicwyr yn cael blaenoriaeth drwy’r pentref

Anfanteision:

- Effeithiau ar gynefinoedd bywyd gwyllt ar Wastadeddau Gwent y mae angen eu hastudio ymhellach ac sy’n debygol o fod angen mesurau lliniaru
- Mae angen caffael tir, a bydd hynny'n cael effaith ar nifer fawr o diroedd ffermio ac eiddo masnachol
- Cost uchel a tharfu i greu’r lledau angenrheidiol ar gyfer gwahanu cerddwyr, beicwyr a thraffig cerbydau yn llwyr

# Geirfa

Llwybr beiciau dwyffordd
Llwybr beiciau ar un ochr i'r ffordd, a ddefnyddir gan feicwyr sy'n teithio i'r ddau gyfeiriad.

Llwybr beiciau ar wahân
Llwybr beiciau sydd wedi'i wahanu'n ffisegol oddi wrth y droedffordd ac oddi wrth lonydd traffig cerbydau, er mwyn darparu amodau diogel a chyfforddus i feicwyr.

Llwybr cyd-ddefnyddio
Llwybr y gellir ei ddefnyddio gan gerddwyr a beicwyr, heb unrhyw nodweddion neu farciau gwahanu ffisegol.

Gostegu traffig
Mesurau i ostwng cyflymder cerbydau modur er mwyn gwella diogelwch i gerddwyr, beicwyr a thrigolion sy'n byw ar hyd y llwybr, fel culhau'r ffordd, newid blaenoriaeth ar gyffyrdd neu dwmpathau cyflymder.

Lôn Dawel
Llwybrau traffig cymysg gwledig sydd wedi'u dylunio i wneud y llwybr yn fwy diogel ac yn fwy dymunol ar gyfer teithio ar droed ac ar gefn beic. Gellir cyflwyno mesurau i ostwng cyflymderau a llif traffig moduron i helpu i leihau'r risgiau y mae beicwyr a cherddwyr yn eu hwynebu.

Stryd Feiciau
Stryd dawel mewn ardal adeiledig sy'n gweithredu fel prif lwybr beiciau. Mae Strydoedd Beiciau wedi'u dylunio fel bod beicwyr yn cael blaenoriaeth ac y bydd gyrwyr cerbydau modur yn ymddwyn fel 'gwesteion', gan deithio ar gyflymder isel

## Lôn dawel




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2021), Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol

## Stryd feiciau



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2021), Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol
Credyd: John Mather

# Dweud eich dweud

Rydym wedi ymrwymo i roi llais i bawb yn natblygiad y system drafnidiaeth.

Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Opsiynau ar gyfer Teithio Llesol (cerdded a beicio) a Llwybrau Bysiau rhwng Caerdydd a Chasnewydd yn cael ei gynnal am gyfnod o chwe wythnos, rhwng 1 Chwefror ac 11 Mawrth 2022.

Gallwch ymateb drwy lenwi'r arolwg ar-lein sydd ar gael yn Coridorau teithio llesol a bysiau rhwng Caerdydd a Chasnewydd.

Fel arall, gallwch lwytho'r ffurflen i lawr, ei llenwi a'i hanfon dros e-bost at engagement@tfw.wales neu drwy'r post at:

Y Tîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid,
Trafnidiaeth Cymru,
3 Llys Cadwyn,
Pontypridd,
CF37 4TH

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth. Byddwn yn gofyn am eich barn eto yn y dyfodol, cyn bwrw ymlaen ag unrhyw un o'r cynigion.



Gorsaf Gorllewin Casnewydd (arfaethedig)
Ffynhonnell: Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (2020)